# Sicrau Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ionawr 2025

# CYNNWYS

Gwybodaeth Gyffredinol 3

Cyflwyniad 3

Ffioedd Hurio Preifat 4

Sut I Wneud Cais Am Drwydded 4

Gweithdrefn Gwneud Cais Am Drwydded Gweithredwr Hurio Preifat 4

Y Gyfraith Ac Amodau Lleol Sy'n Ymwneud Â Thrwyddedu Hurio Preifat 5

# GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad ar sut i wneud cais am Drwydded Gweithredwr Hurio Preifat. Mae canllawiau ar wahân ar gael ar sut i wneud cais am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat a Thrwydded Cerbyd Hurio Preifat. Ar gyfer ymholiadau ynghylch sut i gael trwydded neu os oes gennych gwestiwn cyffredinol ar faterion trwyddedu:

## AR GYFER CEISIADAU TRWYDDEDU, A PHROFION CERBYDAU

### CYFEIRIAD

Depo Trafnidiaeth Adran yr Amgylchedd a Thechnegol,
Abbey Road, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Ll13 9PW

### EBOST

taxiadmin@wrexham.gov.uk

## EMHOLIADAU YN YMWNEUD Â GORFODI, CYNGOR CYFFREDINOL A CHWYNION

### CYFEIRIAD

Adran yr Economi a Chynllunio, Gwasanaethau Trwyddedu,
Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY

### EBOST

licensingservice@wrexham.gov.uk

# CYFLWYNIAD

Cyflwynir trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat a Cherbyd Hacni gan y cyngor lleol i reoli gweithrediad diogel cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni sy'n cael eu defnyddio i'w hurio neu er tâl. Yn Wrecsam, ymdrinnir â thrwyddedu hurio preifat gan y Gwasanaeth Trwyddedu o fewn adran Diogelu'r Cyhoedd yng Nghyngor Wrecsam.

Mae gan bob trwydded gyfres o amodau y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio â hwy. Mae'r amodau hyn wedi'u cynnwys ar y drwydded a gyflwynwyd, ac maent wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Fel arfer, cyflwynir trwyddedau Gweithredwr Hurio Preifat am bum mlynedd.

## FFIOEDD HURIO PREIFAT

Mae'r ffioedd presennol ar wefan y cyngor.

## SUT I WNEUD CAIS AM DRWYDDED

Gellir lawrlwytho'r ffurflen gais neu e-bostiwch taxiadmin@wrexham.gov.uk i ofyn i ffurflen gael ei hanfon atoch drwy e-bost.

Dylid e-bostio'r ffurflen gais wedi'i chwblhau, ynghyd â'r holl ddogfennau priodol at taxiadmin@wrexham.gov.uk. Yna, byddwch yn derbyn rhif cais. Dyfynnwch y rhif hwn mewn perthynas ag unrhyw ymholiad am eich cais.

## GWEITHDREFN GWNEUD CAIS AM DRWYDDED GWEITHREDWR HURIO PREIFAT

Rhaid gwneud pob cais am drwydded yn enw un unigolyn, neu yn enwau dau neu fwy o unigolion sy'n gweithio mewn partneriaeth neu yn enw cwmni cyfyngedig.

Mae'n rhaid i'r cyfeiriad yr ydych yn dymuno gweithredu eich busnes hurio preifat ohono fod o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'n rhaid i chi gael caniatâd cynllunio gan Adran Gynllunio Cyngor Wrecsam i weithredu busnes hurio preifat o'r cyfeiriad a nodir yn y cais. I weld a oes caniatâd cynllunio eisoes yn bodoli ar gyfer y cyfeiriad neu i wneud cais neu e-bostiwch planning@wrexham.gov.uk.

Bydd angen i chi ddarparu "Datgeliad Sylfaenol" gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Gellir cael hyn drwy wneud cais ar-lein yn uniongyrchol i'r GDG.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hawl i weithio yn y DU. Mae gwybodaeth am sut i wneud hyn a'r dogfennau y bydd angen i chi eu darparu yn www.gov.uk. I ddinasyddion Prydain ac Iwerddon, pasbort yw'r dull symlaf os oes gennych un. Ni ellir cyflwyno trwyddedau ag iddynt ddyddiadau dod i ben y tu hwnt i unrhyw ddyddiad dod i ben o'ch hawl i weithio yn y DU.

Os oes unrhyw gollfarnau neu wybodaeth arall am eich datgeliad GDG sylfaenol, yna gellir cyfeirio eich cais at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol am benderfyniad. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, bydd y Pwyllgor yn cyfeirio at Feini Prawf ar gyfer Addasrwydd Gyrwyr a Gweithredwyr y cyngor.

Nid yw bodolaeth unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan dystysgrif y GDG o reidrwydd yn golygu na roddir trwydded.

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a chaiff ei defnyddio mewn perthynas â'ch cais yn unig.

Mae gan unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd trwydded iddo, hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod i dderbyn y penderfyniad.

Unwaith y bydd y broses uchod wedi'i chwblhau'n foddhaol, a’r ffi briodol wedi’i thalu, bydd eich trwydded yn cael ei rhoi.

Pan fydd eich trwydded yn dod i ben byddwch yn cael eich atgoffa i wneud cais am adnewyddu eich trwydded, ond cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau bod y drwydded yn cael ei hadnewyddu cyn iddi ddod i ben.

Bydd unrhyw gais a wneir ar ôl i drwydded ddod i ben yn cael ei drin fel cais 'newydd', a bydd angen iddo fynd drwy'r un weithdrefn â’r hyn a nodwyd ar gyfer rhoi trwydded newydd.

# Y GYFRAITH AC AMODAU LLEOL SY'N YMWNEUD Â THRWYDDEDU HURIO PREIFAT

Dylai pob deiliad trwydded gweithredwr hurio preifat fod yn ymwybodol o'r gyfraith a'r amodau sy'n ymwneud â'u trwydded.

Y gyfraith sy'n rheoleiddio hurio preifat yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

## AMODAU TRWYDDED

Diffiniadau: Yn yr amodau hyn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

Ystyr **"Swyddog Awdurdodedig"** yw’r person sydd wedi’i awdurdodi gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio i gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chyflwyno trwyddedau hurio preifat a gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â hurio preifat;

Ystyr **"Rhif bathodyn"** yw rhif trwydded y Gyrrwr Hurio Preifat a ddangosir ar y bathodyn adnabod a gyflwynir i yrrwr gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio yn unol ag Adran 54 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;

Ystyr **"Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio"** yw'r person a benodir i'r swydd honno yng Nghyngor Wrecsam;

Ystyr **"Gweithredwr"** yw'r person y cyflwynir y drwydded gweithredwr hon iddo;

Ystyr **"Gyrrwr"** yw'r person y mae trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat wedi'i chyflwyno iddo gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio;

Ystyr **"Perchennog"** yw'r person y mae trwydded Cerbyd Hurio Preifat wedi'i chyflwyno iddo gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio;

Ystyr **"Cerbyd"** yw'r cerbyd y mae trwydded Cerbyd Hurio Preifat wedi'i chyflwyno iddo gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio;

Ystyr **"Rhif y plât"** yw'r rhif trwydded cerbyd hurio preifat sy'n cael ei arddangos ar blatiau adnabod y cerbyd a gyflwynir mewn perthynas â cherbyd gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio.

## 1 A. Bydd y gweithredwr yn cadw'r cofnodion canlynol:

a. Mewn perthynas â phob contract ar gyfer hurio Cerbyd Hurio Preifat:

1. amser a dyddiad yr archeb;
2. enw a phwynt casglu'r huriwr;
3. cyrchfan;
4. rhif plât y cerbyd a neilltuwyd i'r archeb;
5. rhif bathodyn y gyrrwr a neilltuwyd i'r archeb;

b. Mewn perthynas â'r holl gerbydau a weithredir:

1. enw a chyfeiriad y Perchennog;
2. rhif cofrestru'r cerbyd;
3. rhif y plât a'i ddyddiad dod i ben;

c. O ran yr holl yrwyr sy'n gweithio i'r Gweithredwr:

1. enw a chyfeiriad y gyrrwr;
2. rhif y bathodyn a'i ddyddiad dod i ben;
3. yr arwydd galw a neilltuwyd i'r gyrrwr;
4. copïau o ddogfennau yswiriant perthnasol.

B. Gellir cadw'r cofnodion naill ai:

a. mewn llyfr(au), a gymeradwywyd at ddefnydd o'r fath gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio, y mae'n rhaid rhifo'r tudalennau yn olynol a'u rhwymo gyda'i gilydd, neu,

b. drwy system gofnodi gyfrifiadurol a gymeradwywyd gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio.

C. Bydd y cofnodion ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig neu gwnstabl ar unrhyw adeg resymol.

D. Bydd y Gweithredwr yn cadw'r cofnodion ar gyfer unrhyw ddyddiad penodol am gyfnod o ddim llai na deuddeng mis.

2 Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau, mewn perthynas â'r holl gerbydau sydd dan ei reolaeth, fod polisïau yswiriant neu ddiogelwch o'r fath mewn grym, sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Traffig Ffyrdd 1988.

3 Bydd y Gweithredwr yn darparu gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol ac, at y diben hwn, rhaid iddo'n benodol:

a. sicrhau, pan fydd Cerbyd Hurio Preifat wedi'i hurio i fod yn bresennol ar amser a lle penodedig, y bydd y Cerbyd, oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal am reswm digonol, yn cyrraedd y lleoliad hwnnw ar yr amser penodol yn brydlon;

b. cadw unrhyw safle y mae'r Gweithredwr yn ei ddarparu ac y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, yn lân, wedi'i wresogi a'i awyru'n ddigonol, a'i oleuo'n dda, p'un ai at ddiben archebu neu aros;

c. sicrhau bod gan unrhyw ardal aros a ddarperir gyfleusterau eistedd digonol;

d. sicrhau bod unrhyw offer ffôn a radio a ddarperir yn cael eu cadw mewn cyflwr da a bod unrhyw ddiffygion yn cael eu hatgyweirio'n brydlon;

e. os defnyddir offer radio, bydd trwydded mewn grym, a gyflwynir yn unol â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr sy'n cwmpasu defnyddio Radios Busnes Preifat.

4

a. Bydd y Gweithredwr, ar ôl derbyn unrhyw gwyn yn ymwneud â Gyrrwr, Cerbyd neu unrhyw gontract ar gyfer hurio neu gontract honedig, sy'n gysylltiedig â'i weithrediad neu sy'n deillio ohono, yn hysbysu, yn ysgrifenedig, Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio yn syth, a bydd yn nodi'r camau gweithredu (os o gwbl) y mae'r Gweithredwr wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, mewn cysylltiad â chwyn o'r fath.

b. Rhaid i'r Gweithredwr osod Hysbysiad wedi'i argraffu'n briodol, a ddarperir gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio, yn barhaol mewn safle amlwg y tu mewn i'r fangre fel y gellir ei ddarllen yn hawdd gan unrhyw berson sy'n dymuno hurio unrhyw Gerbyd Hurio Preifat, i'r perwyl y dylid cyfeirio unrhyw gŵyn ynghylch contract ar gyfer hurio sy'n ymwneud â'r busnes at: Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio, Cyngor Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY.

5

a. Mae'r drwydded hon yn berthnasol i'r fangre a nodir yma yn unig, ac ni fydd y Gweithredwr yn gweithredu Cerbydau Hurio Preifat o unrhyw safle arall heb gael caniatâd ysgrifenedig Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn gyntaf.

b. Bydd y Gweithredwr yn hysbysu, yn ysgrifenedig, Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio o fewn saith diwrnod o unrhyw newid i'w gyfeiriad personol.

6 **Bydd y Gweithredwr yn hysbysu Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio yn ysgrifenedig, o fewn saith diwrnod, fanylion y canlynol:**

a. gyrrwr (gyrwyr) yn peidio â bod yn gysylltiedig â'i weithrediad

b. gyrrwr (gyrwyr) sy'n dechrau derbyn archebion ganddo.

7 **Bydd y Gweithredwr, o fewn saith diwrnod, yn hysbysu Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio yn ysgrifenedig am unrhyw gollfarn a osodir arno (neu os yw'r Gweithredwr yn gwmni neu'n bartneriaeth ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu'r partneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.**

8 **Bydd y Gweithredwr, o fewn 14 diwrnod o gyflwyno'r drwydded hon, yn darparu i Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio, yn ysgrifenedig, manylion am y raddfa brisiau a godir am hurio cerbydau a weithredir ganddo, a bydd o fewn 7 diwrnod i unrhyw newidiadau yn y fath raddfa brisiau, yn rhoi manylion ysgrifenedig am newidiadau o'r fath i Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio.**

9 Bydd y Gweithredwr yn sicrhau unrhyw Ganiatâd Cynllunio angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer ei fangre a bydd yn cydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrtho. Nid yw cyflwyno'r drwydded hon yn awgrymu nad oes angen caniatâd cynllunio, nac y byddai'n cael ei roi pe bai cais yn cael ei wneud i'r Cyngor.

10

a. Ni fydd unrhyw annifyrrwch neu aflonyddwch yn cael ei achosi i feddianwyr cyfagos neu ddefnyddwyr eraill y tir oherwydd unrhyw lygredd atmosfferig neu lygredd aer, neu lygredd a drosglwyddir mewn unrhyw fodd arall. Er mwyn egluro, bydd annifyrrwch neu aflonyddwch o'r fath yn cynnwys sŵn, dirgryniad, mwg, arogl, mygdarthau, llwch, lludw, huddygl, golau llachar, papur sydd wedi'i chwythu gan y gwynt ac ymyrraeth radio neu deledu.

b. Ni chaniateir parcio unrhyw Gerbydau Hurio Preifat yng nghyffiniau'r safle a fyddai'n achosi rhwystr neu annifyrrwch i unrhyw berson.

11 Ni fydd y Gweithredwr, heb gydsyniad ysgrifenedig Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio, yn gweithredu mwy na (nifer y cerbydau) o gerbydau.

12 Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau nad oes unrhyw yrrwr Cerbyd Hurio Preifat a weithredir ganddo, yn aros neu'n parcio ar y briffordd, neu yn unrhyw le yn y fath fodd ag i nodi neu awgrymu ei fod ar gael i'w hurio.

13 Ni fydd unrhyw waith atgyweirio, (ac eithrio atgyweiriadau brys) glanhau, na gwasanaethu o unrhyw fath yn cael ei wneud ar unrhyw Gerbyd Modur yn y fangre weithredu.

14 Rhaid i'r Gweithredwr gydymffurfio bob amser â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, i'r graddau y maent yn berthnasol i Yrwyr, Cerbydau a Gweithredwyr Hurio Preifat, a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall ar gyfer y cyfnod mewn grym.

15 Rhaid i'r enw ar y Drwydded Gweithredwr fod yr un peth ag enw'r busnes ar adeg y cais. Ni fydd y Gweithredwr yn gweithredu dan unrhyw enw arall nad yw ar y Drwydded Gweithredwr.

16 Rhaid i Weithredwr gwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu cymeradwy pan fo hynny'n ofynnol gan y Gwasanaeth Trwyddedu.

**Gellir ystyried torri'r amodau hyn fel sail dros atal neu ddirymu neu fel sail dros wrthod adnewyddu'r drwydded.**

# YR HAWL I APELIO

Os ydych yn cael eich tramgwyddo gan unrhyw un o amodau'r drwydded hon, gallwch apelio i Lys Ynadon o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cyflwynwyd y drwydded.